# Briff diogelwch

Diolch am ymuno â'r gweithgaredd heddiw.

Fi yw ______________ a fi yw cydlynydd y digwyddiad. Cefnogir y gweithgaredd heddiw gan Cadwch Gymru'n Daclus, elusen amgylcheddol sy'n gweithio gyda chymunedau ledled Cymru.

Y dasg heddiw yw __________ a byddwn yn gorffen am _____ o'r gloch.

Mae'r cyfleusterau toiled agosaf yn __________. Mae'r pecyn cymorth cyntaf agosaf yn _________________, ac mae ____________________ yn swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig.

Mae gennyf ffôn symudol gyda fi ar gyfer argyfyngau a chlytiau neu hylif gwrthfacterol.

Byddaf yn tynnu lluniau yn ystod y dydd, i roi cyhoeddusrwydd i'r gwaith y mae'r grŵp hwn yn ei wneud. Rhowch wybod i mi os nad ydych yn fodlon i mi dynnu eich llun.

(Gwirio addasrwydd esgidiau a dillad)

Gallaf weld eich bod i gyd yn gwisgo esgidiau cadarn a dillad addas, fydd yn eich diogelu rhag ________________ neu gallaf weld bod rhai ohonoch yn gwisgo sandalau / crysau-t / siorts, felly bydd angen i chi _______________.

(Os yn codi sbwriel, dosbarthwch godwyr sbwriel, bagiau bin ar gyfer gwastraff cyffredinol ac ailgylchu os ar gael)

Rydym yn defnyddio dau fag heddiw; bagiau lliw ___________ ar gyfer gwastraff cyffredinol, a bagiau lliw ___________ ar gyfer casglu ailgylchu. (Esboniwch pa wastraff sy'n mynd ym mhob bag) Gan fod y tywydd yn _____________, byddwn yn cymryd y rhagofalon hyn: _______________________________________

Dyma rai o'r peryglon y gallem ddod ar eu traws a sut byddwn yn lleihau'r risg:

(Cyfeiriwch at aesiad risg ac ewch trwy'r mesurau rheoli.)

Gweithiwch o fewn golwg gwirfoddolwyr eraill bob amser a byddwch yn ochelgar o'u diogelwch nhw yn ogystal â'ch diogelwch chi.

Rhowch wybod i mi os bydd angen i chi adael y gweithgaredd cyn y diwedd, fel nad ydym yn anfon pobl allan i chwilio amdanoch!

Os oes gan unrhyw un gyflwr meddygol a allai effeithio ar eu gwaith, rhowch wybod i mi wrth i ni ddechrau gweithio.

(Os bydd rhywun yn adrodd am gyflwr meddygol, gwnewch yn siŵr bod ganddynt unrhyw feddyginiaeth angenrheidiol gyda nhw a'u bod yn teimlo bod y gweithgaredd yn addas iddyn nhw. Gofynnwch iddynt aros o fewn golwg gweithwyr eraill bob amser.)

(Gofynnwch i wirfoddolwr gydlofnodi'r asesiad risg.)

Ar ddiwedd y dasg:

- Diolchwch i'r gwirfoddolwyr am eu cyfranogiad.

- Cymerwch fanylion cyswllt er mwyn gallu anfon gwybodaeth am eich gweithgaredd nesaf.